

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 14 MEHEFIN 2018

Yn Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Gavin Hill-John, Robson, Sattar a/ac Stubbs

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor i'r Cynghorydd Nigel Howells gael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn Aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Mai 2018:

Y Cynghorwyr Derbyshire, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar, Simmons a Stubbs.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Derbyshire a Simmons fel aelodau newydd i'r Pwyllgor.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl:

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Derbyshire, Gordon, Parkhill a Simmons.

4 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddaeth dim i law.

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mai 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD CHWARTER 4

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Cynghorydd Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau a'r Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, a Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau i wneud datganiad lle dywedodd fod Caerdydd yn ddinas sy'n tyfu, ond bod anghydraddoldeb yn parhau i fod yn her fawr. Er mwyn galluogi ein dinasyddion i gyrraedd eu potensial, yna'r gwasanaethau hyn y mae angen iddynt berfformio'n dda a diwallu anghenion ein dinasyddion. Mae'r her hon yn cael ei hatgyfnerthu gan y newidiadau y mae Diwygio Lles ac yn arbennig y Credyd Cynhwysol yn eu cyflwyno. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn falch o ddweud ein bod wedi helpu dros 42,000 i gael Cyngor i Mewn i Waith; cefnogwyd bron 1,400 i gwblhau hyfforddiant achrededig; Ymgysylltwyd â 297 o gleientiaid yr effeithiwyd arnynt gan Cap Budd-daliadau cap, ac mae 115 ohonynt wedi sicrhau cyflogaeth. Mae'r adroddiad chwarter 4 yn dangos bod llyfrgelloedd a hybiau wedi derbyn dros 3.3 miliwn o ymwelwyr, gyda boddhad cwsmeriaid ar 98%. Mynegodd yr Aelod Cabinet ei boddhad â'r mater hwn gan ychwanegu mai ond adrodd rhan o'r darlun yw hyn a dim ond drwy ymweld a gweld y gymuned gyfan yn defnyddio, mwynhau a chael budd o'r gwasanaethau gwych, y gallwch wir ddeall y llwyddiant ysgubol sydd wedi digwydd.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn falch bod cofrestru Dysgu i Weithio wedi cynyddu 27%, bod cyfradd llwyddiant o 92% sy'n uwch na'r targed a osodwyd ac yn targedu'r dysgwyr mwy agored i niwed. Ychwanegodd fod un mater o bryder yn ymwneud â'r ffaith y byddai'r grant ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei leihau'n sylweddol yn y flwyddyn i ddod o fwy na 50%; roedd hyn yn cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn perthynas â'i wasanaeth, fod y rhan fwyaf o'r amcanion wedi'u cyrraedd, gyda dim ond 1 oedd heb a dyna oedd y targed diweithdra. Ychwanegodd fod y niferoedd wedi codi oherwydd bod mwy o bobl yn y gweithle yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Pobl a Chymunedau

Bu'r Aelodau'n trafod targed Trais yn erbyn Menywod Staff y Cyngor, gan nodi ei fod yn darged newydd ond yn gobeithio gweld gwelliant dramatig yn ystod y flwyddyn nesaf.

Croesawodd yr Aelodau y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â llyfrgelloedd a chanolfannau.

Cyfeiriodd swyddogion at y llwybrau E-ddysgu ar gyfer hyfforddiant Trais yn y Cartref, lle'r oedd rhai materion technegol wedi codi, maent wedi cael eu cyfeirio gan gydweithwyr iechyd a'u bod wedi bod yn anodd eu casglu o'r blaen. Mae swyddogion yn bwriadu cadw llygad ar hyn er mwyn sicrhau bod materion wedi'u datrys.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gostyngiad yn y cyllid grant ar gyfer DOG a gofynnwyd a oedd yna gynllun wrth gefn. Dywedodd swyddogion y byddai lefel y gostyngiad yn heriol iawn a chyda chanlyniadau rhagorol cyfredol, roedd yn bryder gwirioneddol. Byddai swyddogion yn cymryd y dull o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd grant a gweithio integredig i leihau'r baich ar y Cyngor.

Ni ellid lliniaru toriad o 50% yn llawn. Cynigiodd y Pwyllgor ei gefnogaeth i swyddogion mewn perthynas â hyn, gan gynnwys cymorth yn ystod y cyfnod

ymgyngori o ran cynnig eu hadborth am y perfformiad da ar hyn o bryd a gwerth hyn.

Datblygu Economaidd

Cyfeiriodd yr Aelodau at y targed diweithdra a nodi bod hyn gan fwyaf y tu allan i ddwylo'r Cyngor. Bu'r Aelodau'n trafod siopau mawr sy'n gadael y ddinas megis Toys R Us a Howells a gofynnwyd beth y gallai'r Cyngor ei wneud i leddfu'r effaith ar lefel leol ac i annog pobl i ddefnyddio'r Stryd Fawr. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod mwy o bobl yn gweithio yng Nghaerdydd ac eto bod nifer y bobl yn y farchnad swyddi a chwilio am waith wedi cynyddu yn sgil y Credyd Cynhwysol. Ychwanegodd swyddogion eu bod wedi creu 20,000 o swyddi newydd ond mae'r gyfradd ddiweithdra wedi parhau i dyfu. Ystyriodd yr Aelodau a oedd y targed yn gywir ac a ydym yn mesur y dangosyddion cywir. Dywedodd swyddogion eu bod yn teimlo bod y dangosyddion a'r targedau'n briodol ond eu bod yn hapus i wrando ar farn y Pwyllgor pe byddai'r Aelodau'n teimlo y byddai dangosyddion ychwanegol yn ddefnyddiol. Trafododd yr Aelodau'r problemau gyda'r Stryd Fawr megis banciau a Swyddfeydd Post yn cau, pobl yn siopa ar-lein ac ati. Roedd nifer yr ymwelwyr yn y Ddinas wedi'u cynnal ond roedd pobl yn defnyddio'r Ddinas ar gyfer pethau gwahanol. Roedd yn bwysig bod yn greadigol a denu pobl i'r Ddinas gyda digwyddiadau fel Diwrnod Dim Ceir ac adeiladu ar economi'r dydd yn ogystal â'r economi nos. Roedd y Cyngor yn cynnal trafodaethau â landlord Howells a House of Fraser ac roedd hefyd yn ystyried adolygu dyluniad Heol Eglwys Fair.

Mewn perthynas â'r targedau'n briodol, eglurodd Swyddogion eu bod wedi curo'r targed o'r blaen oherwydd prosiectau mawr untro ond nid yw'r rhain wedi'u gwarantu. Eglurodd swyddogion y dylai'r Ardal Gwella Busnes helpu, gyda busnesau yn gweithio gyda'i gilydd i ddenu mwy o ymwelwyr i'r stryd fawr. Holodd yr Aelodau a oedd Caerdydd yn profi'r un patrymau o ymwelwyr ag ardaloedd eraill; a oedd gwersi i'w dysgu oddi wrth ddinasoedd eraill?

Gan gyfeirio at bresenoldeb yn y Theatr Newydd a Neuadd Dewi Sant, nododd yr Aelodau fod y ffigwr ychydig yn is na'r llynedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod presenoldeb â thâl yn parhau i fod yn uchel; ac yn well yn ystod rhai cyfnodau'r flwyddyn megis y Nadolig yn Neuadd Dewi Sant. Ychwanegwyd bod y cymhorthdal wedi gorfod cael ei dynnu o Neuadd Dewi Sant ac roedd hyn wedi bod yn her, ac roedd ailstrwythuro ar y gweill.

Dywedodd yr Aelodau y byddent yn hoffi gweld y Pwyllgor Craffu yn edrych ar dwristiaeth newydd fel y Castell a Dr Who. Eglurodd swyddogion fod y Cyngor yn agos i gytundeb gyda Dr Who a Blacktower Tales ac y byddai mwy o wybodaeth ar gael maes o law.

Nododd yr Aelodau nifer yr ymwelwyr a oedd yn aros yn y Ddinas a chawsant eu synnu na gyrhaeddwyd y targed, yn enwedig oherwydd Cynghrair y Pencampwyr. Dywedodd swyddogion fod yr ymwelwyr a oedd yn aros nos yn 1.8% a'r targed oedd 2% ond ychwanegodd fod ymweliadau undydd wedi codi'n sylweddol dros y targed.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y Pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

7 : CYNLLUN GWEITHREDU CYFARWYDDIAETH DATBLYGU ECONOMAIDD

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am Lleoedd Hybu ac fe'u cynghorwyd nad oedd y Lleoedd Arloesi/Hybu yn perfformio mewn gwirionedd, mae swyddogion yn gobeithio gweithio gyda'r Brifysgol, ceisio caniatâd cynllunio, gweithio gyda chontractwr a cheisio newid y dirwedd yng Nghaerdydd, gan sefydlu cyfleuster ymchwil go iawn sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol a Diwydiant. Adolygir y polisi yn ystod y misoedd nesaf i weld a oedd angen y dull amgen hwn.

Nododd yr Aelodau'r rhestr o uchelgeisiau a gofynnwyd a oedd gan y Gyfarwyddiaeth yr adnoddau yr oedd eu hangen i gyflawni'r rhain. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd, ond y byddai'n rhaid iddynt wneud yr hyn yr oeddent bob amser wedi'i wneud, sef perswadio pobl eraill i ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni'r agenda. Byddai angen dod yn fwy medrus mewn blynyddoedd i ddod. Partneriaethau cyhoeddus/preifat oedd yr holl brosiectau mawr a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghaerdydd.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd lefelau staffio'r Gyfarwyddiaeth, a dywedwyd wrthynt nad oedd digon o bobl, bod maint yr arbedion a wnaed flwyddyn ar ôl blwyddyn wedi bod yn her anodd iawn; roedd angen bod yn arloesol a dod o hyd i ffyrdd o wneud pethau'n wahanol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod penderfyniadau yn y gorffennol wedi effeithio ar rai cysylltiadau a oedd wedi gwneud pethau'n anos i'w cyflawni y tro hwn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd modd i'r staff chwilio am Grantiau. Dywedodd y swyddogion nad oeddent erioed wedi teimlo bod cyfyngiad ar gapasiti, lle'r oedd cyfle'n codi yna gwnaed cais amdano, gan ychwanegu nad ydynt yn gwneud cais am grantiau eu hunain, ond eu bod yn helpu eraill megis Stori Caerdydd. Ychwanegodd fod llawer o enghreifftiau lle maen nhw'n cael pethau wedi'u cyflawni gan bobl eraill yn cael grantiau fel y Tramshed. Nodwyd eu bod bob amser yn gweithio gyda rhai eraill megis Friends Groups and Trusts sy'n gallu cael gafael ar gyllidebau. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden fod y Cyngor yn cael ei atal rhag gwneud cais am grantiau weithiau ond eu bod wedi bod yn greadigol a rhoddodd yr enghraifft o Insole Court, a oedd, yn ei farn ef, wedi gweithio'n eithriadol o dda. Gan gyfeirio at gapasiti rhoddodd yr enghraifft o'r Strategaeth Cerddoriaeth Fyw a bod un Swyddog Cyngor yn gweithio i gyflawni hyn, gan nodi mai dyma'r gwir am wasanaeth dewisol pan fo'r Cyngor yn cael ei gywasgu.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y Pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

8 : BARGEN DDINESIG DINAS RANBARTH CAERDYDD: TROSOLWG AR Y CYD A CHYNIGION Y PWYLLGOR CRAFFU

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad lle dywedodd fod angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod y trefniadau craffu sydd ar waith ar gyfer y Fargen Ddinesig yn gadarn, gan ychwanegu bod un Aelod fesul Awdurdod, sy'n adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer Cydbwyllgorau eraill. Dywedodd y byddai'r Aelodau'n ymwybodol bod y Fargen Ddinesig wedi cytuno ar y cynllun busnes ar y cyd sy'n adlewyrchu disgwyliadau cystadleuol yr awdurdodau h.y. canolbwyntio ar thema/prosiect; cafwyd tystiolaeth o gyfaddawd yn y cynllun busnes hwnnw. Gan fod y cynllun busnes wedi'i gytuno bellach, mae'n bwysig bod Caerdydd yn gwneud yr un lefel o graffu ag y mae'n gymwys yng Nghaerdydd i'r Fargen Ddinesig.

Nododd y Cadeirydd fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei enwebu fel yr Arweinydd Craffu a gofynnodd pa resymeg oedd y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw. Dywedodd yr Arweinydd fod y penderfyniad yn cael ei wneud ar lefel Prif Weithredwr, ac yna ei dderbyn gan Aelodau, gan ychwanegu bod gan Ben-y-bont ar Ogwr y capasiti i ymgymryd â'r rôl. Yr Arweinydd Llywodraethu yw Prif Weithredwr Merthyr ac mae'n gwneud synnwyr i gael gwahanol awdurdodau fel arweinwyr gwahanol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y gofynnwyd iddynt ddarparu barn ar rai meysydd yn benodol a gofynnodd i'r Swyddog Craffu ddarparu trosolwg o'r rhain. Eglurodd y Swyddog Craffu y dylai'r Pwyllgor hwn, mewn perthynas â Chanllawiau Statudol, roi barn ar a ddylid cael craffu ar y cyd, gan fod ganddo'r cylch gwaith ar gyfer craffu ar y Fargen Ddinesig; ystyriodd y Pwyllgor y dylai fod.

Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent o'r farn bod y Cylch Gorchwyl yn briodol, ar hyn o bryd maent yn nodi bod y Cadeirydd/Is-gadeirydd yn cael eu dewis yn nhrefn yr wyddor ac yn cylchdroi bob blwyddyn; nid yw'r Canllawiau Statudol yn cyfeirio at y drefn wyddor. Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai enwebiad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fod yn benderfyniad y Pwyllgor. Dywedodd y Swyddog Craffu y byddai'n bwydo hyn i'r sylwadau i'r Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen cynrychiolydd enwebedig (aelod anweithredol), ac ymgynghorwyd â Chadeiryddion Craffu ynghylch hyn ac roeddent o'r farn mai Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant fyddai'r cynrychiolydd. Trafododd yr Aelodau hyd y penodiad a nodwyd bod Caerdydd yn penodi'n flynyddol. Bu'r Aelodau hefyd yn trafod y setiau sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer enwebeion, roedd Aelodau o'r farn y dylai fod profiad Cadeirio, profiad o'r Fargen Ddinesig a phrofiad craffu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa fecanwaith sy'n bodoli ar gyfer bwydo'n ôl i Gaerdydd, esboniodd y Swyddog Craffu nad yw'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn atal awdurdodau rhag gwneud eu gwaith craffu eu hunain; mae mecanweithiau wedi'u sefydlu i ganiatáu adborth, byddai'r adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn cael ei roi gan ein cynrychiolwyr yn y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Swyddogion Cefnogi.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried argymhelliad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol mai mater i'r awdurdod lleol perthnasol ydyw a yw Cadeirydd y Cyd-bwyllgor

Trosolwg a Chraffu yn derbyn tâl. Roedd yr Aelodau'n credu bod cryn dipyn o waith yn rhan o hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr Aelodau'n credu y dylid cael taliad ychwanegol ar ben y taliad sydd eisoes wedi'i wneud i Gadeiryddion Craffu. Cytunodd y Swyddogion Craffu i roi adborth ar y safbwyntiau hynny.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod adran y cyfarfod sy'n trafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Arweinydd maes o law.

9 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhodddwyd adroddiad diweddar ar ohebiaeth i'r Aelodau, gan nodi nad oedd unrhyw ymatebion heb eu hateb.

Rhodddwyd yr adroddiad blynyddol i'r Aelodau, esboniwyd ei fod yn dilyn yr un fformat ag o'r blaen, gan restru'r hyn y craffwyd arno dros y flwyddyn ac amlygu peth o'r gwaith. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hwn yn gyfle i wneud unrhyw newidiadau cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yr wythnos nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i aelod o'r Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad yn ei absenoldeb gan na fyddai'n mynd i'r Cyngor llawn. Enwebwyd y Cynghorydd Gavin Hill-John i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried sut yr oeddent am fynd ymlaen â rhaglennu gwaith. Rhoddodd y Swyddog Craffu wybod i'r Aelodau sut y gwnaed hyn mewn blynyddoedd blaenorol, gyda rhestr o'r meysydd y maent yn dymuno craffu arnynt, sydd wedyn yn cael blaenoriaeth. Dywedodd y Cynghorydd Stubbs ei fod yn awyddus i edrych ar GLL a'r effaith ar grwpiau di-elw a grwpiau gwasanaeth cyhoeddus sy'n defnyddio'r adeiladau. Dywedodd y Swyddog Craffu y byddai'n debygol y byddai rhestr hir o feysydd ac y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried faint o amser sydd, o gofio argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru y dylid cael cydbwysedd gwaith yn y Pwyllgor a thu allan iddo, gyda chyfarfodydd Pwyllgor yn cymryd dim mwy na thair awr.

Roedd Aelodau o'r farn y dylid cynnal sesiwn anffurfiol ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf am un awr ar y mwyaf.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

10 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

5^{ed} Gorffennaf 2018 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55 pm